Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People & Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-859
Ein cyf/Our ref HID/00917/18

David J Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2018

Annwyl David,

Rwy'n ymateb i'ch gohebiaeth ddyddiedig 26 Tachwedd. Mae eich gohebiaeth yn ymwneud â *Petition P-05-859 - Provide Child Houses in Wales for Victims of Child Sexual Abuse.*

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at fodel a ddatblygwyd yng Ngwlad yr Iâ. Rhan o brosiect peilot yw'r ddau Dŷ Plant sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn Llundain, a nod y gwasanaeth hwn yw sicrhau bod mwy o erlyniadau llwyddiannus am ymosodiadau rhywiol ar blant/cam-drin plant yn rhywiol, a gwella profiad dioddefwyr o ran cael cymorth, gan gynnwys cymorth therapiwtig. Bydd y gwerthusiad o'r gwasanaethau hyn yn dechrau ym mis Tachwedd 2018, a bydd yn sefydlu strategaeth/pecyn dysgu i helpu gyda chydbwyso elfennau'r model Tai Plant yn y DU.

Er bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfeirio plant at y gwasanaethau hyn sy'n rhan o ymateb amlasiantaeth, daw'r cyllid yn Lloegr o'r Swyddfa Gartref; a'r Heddlu a Gwasanaeth Iechyd Lloegr sy'n arwain y prosiect. Mae'r trefniadau hyn yn debyg i'r trefniadau cyllido sydd ar waith yng Nghymru ar gyfer y Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Er mai fi yw'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu plant, gan gynnwys plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, nid y fi yw'r arweinydd polisi ar gyfer Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

Mae'r deisebwr yn awgrymu bod Tai Plant yn darparu lle i blant fynd iddo i ddianc rhag camdriniaeth. Rwy'n gallu eich sicrhau nad felly mo'r sefyllfa. Mae plant y mae'r gwasanaethau yn eu hadnabod fel dioddefwyr posibl cam-drin rhywiol yn cael eu cyfeirio at Dai Plant, lle mae tystiolaeth feddygol fforensig yn cael ei chasglu, ac mae'r heddlu'n gweithio gyda'r plant i gasglu gwybodaeth i'w chyflwyno i Wasanaeth Erlyn y Goron. Yn ogystal â hyn, mae'r plant yn cael cymorth therapiwtig. Er mai fi yw'r Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu plant, gan gynnwys plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, fel y gwyddoch, mater a gedwir yn ôl yn bennaf yw tystiolaeth mewn perthynas â'r broses erlyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn gynnig sicrwydd i'r Pwyllgor Deisebau fod gennym drefniadau cadarn ar waith ar gyfer diogelu plant.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Mae gan bob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Plant yng Nghymru drefniadau ar waith i gefnogi ymarfer ac i weithredu gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant rhag camdriniaeth neu gamfanteisio.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro sy'n datblygu ac yn diweddaru Gweithdrefnau Diogelu Amlasiantaeth Cymru i blant (hyd at 18 oed) ac oedolion, ar ran y chwe Bwrdd Diogelu. Bydd nifer o Ganllawiau sy'n nodi arferion ar gyfer diogelu plant mewn amgylchiadau penodol yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru canllawiau statudol sy'n ymwneud ag atal camfanteisio'n rhywiol ar blant. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn yn wreiddiol yn 2011. Mae grŵp amlasiantaeth yn cefnogi'r gwaith hwn, a bydd y canllawiau statudol diwygiedig yn cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori ddechrau 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol – gan gynnwys atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol – yn y gwanwyn 2019.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Stop it Now i ddatblygu adnoddau ar gyfer ymarferwyr a rhieini/gofalwyr i'w helpu i adnabod arwyddion bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, ac i'w helpu i gadw plant yn ddiogel ac i ymateb i blant sy'n datgelu eu bod yn cael eu cam-drin. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu'r NSPCC i ddatblygu adnoddau ar gyfer helpu ymarferwyr i ymdrin ag achosion lle mae plentyn yn datgelu ei fod yn cael ei gam-drin, ac i ddarparu sesiynau ar ddefnyddio'r adnoddau hyn.

Rydym yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sef corff a sefydlwyd drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i ledaenu gwybodaeth a hyrwyddo dysgu sy'n helpu i gynnal arferion diogelu effeithiol.

Er bod y materion a godir yn y ddeiseb yn rhai hynod bwysig, rwyf o'r farn nad yw'r deisebwr wedi deall yn llawn rôl a diben Tai Plant. Ar ben hynny, newydd ddechrau y mae'r gwaith o gynnal gwerthusiad o'r Tai Plant yn Llundain, a byddai'n ddoeth aros i weld y dystiolaeth sy'n dod i law ynghylch y modd y mae'r gwasanaethau peilot hyn yn gweithredu. Hefyd, gan fod cysylltiad amlwg rhwng gweithredu Tai Plant a chasglu tystiolaeth i gefnogi'r broses erlyn, mater a gedwir yn ôl yn bennaf yw'r gwaith o ddatblygu Tai Plant.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People and Social Care